Hawdd ei Ddeall

# Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe

# Cynllun llesiant lleol






Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o **Cynllun Llesiant Lleol: Gweithio gyda'n gilydd i adeiladu dyfodol gwell** Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe.

**Ionawr 2019**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai y byddwch angen help a chefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rhywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu chi.


Efallai bod rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain mewn **ysgrifen glas trwm** ac mae beth maen nhw'n feddwl yn cael ei esbonio yn y blwch o dan y gair.

Os ydy'r gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto mae mewn ysgrifen glas normal. Mae beth mae nhw'n feddwl ar dudalen **32**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:




Gwefan: www.abertawe.gov.uk/bgc



Email: BGCabertawe@abertawe.gov.uk



Ffôn: 01792 635350

Cafodd y ddogfen yma ei gwneud yn un hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

# Cynnwys

**Tudalen**


**Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma....................................................................2**

**Cyflwyniad..................................................................................................4**

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.......................5

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe....................................6

**Am y cynllun yma.......................................................................................7**

**Ein hamcanion llesiant..............................................................................9**

1. Blynyddoedd cynnar..........................................................................11

2. Byw'n dda a heneiddio'n dda...........................................................15


3. Gweithio gyda natur...........................................................................20

4. Cymunedau cryf..................................................................................26

**Rhannu ar gyfer Abertawe.......................................................................30**

**Geiriau anodd............................................................................................32**

# Cyflwyniad




Nod y cynllun ydy gwella **llesiant** Abertawe. Mae'r cynllun yn dweud sut y byddwn ni'n gweithio gyda'n gilydd i wella **llesiant** nawr ac yn y dyfodol.




Mae **llesiant** yn meddwl bod Abertawe:

- yn lle iach i fyw
- yn gwneud yn dda ac mae gan bobl swyddi a sgiliau da
- yn deg
- yn ddiogel
- yn llawn o leoedd gwyrdd ac yn gofalu am ein tir, dŵr ac aer
- yn dathlu sut mae pobl yn byw
- yn cael effaith da ar y byd.



Mae hefyd yn meddwl bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus gyda'u bywyd a beth maen nhw'n wneud .

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015



Dechreuodd y ddeddf yn 2015. Mae'n meddwl gwneud Cymru yn lle gwell i bobl fyw ynddi nawr. Ac i bobl yn y dyfodol hefyd.



Mae gan y ddeddf  7 o nodau llesiant i Gymru. Mae'n dweud bod rhaid i **wasanaethau cyhoeddus** weithio tuag at y nodau yma gan ddefnyddio **5 ffordd o weithio**. Rhaid iddyn nhw feddwl am:

1. Sut mae'r gwaith maen nhw'n ei wneud nawr yn gallu effeithio ar y dyfodol.
2. Sut mae problemau yn gallu cael eu stopio rhag digwydd neu fynd yn waeth.
3. Sut maen nhw'n gweithio'n well gyda'r holl bobl.
4. Sut maen nhw'n gweithio'n well gyda chyrff.
5. Sut mae eu cynlluniau yn effeithio ar gynlluniau eraill.



**Gwasanaethau cyhoeddus** ydy gwasanaethau sydd yn cael eu rhedeg neu yn cael eu talu gan y llywodraeth. Er enghraifft cynghorau lleol, GIG, yr heddlu, tân ac achub.



Mae **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** wedi cael eu sefydlu ym mhob ardal yng Nghymru i:

- edrych ar sut mae llesiant yn eu hardal



- gweithio gyda'i gilydd i wella llesiant.

## Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe



Ni ydy **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe**. Rydyn ni'n cynnwys arweinwyr o:



- gwasanaethau cyhoeddus



- busnesau




- grwpiau gwirfoddol.

# Am y cynllun yma




Yn 2016 fe wnaethon ni edrych i weld sut beth ydy llesiant i bobl yn Abertawe.



Fe wnaethon ni edrych ar lawer o bethau gwahanol sydd yn helpu i wneud Abertawe yn lle gwell i fyw ac i wella llesiant.




Yn 2017 fe wnaethon ni siarad am beth oedd yn bwysig i Abertawe yn y dyfodol. Fe wnaethon ni siarad gyda:



- partneriaid
- grwpiau gwirfoddol
- grwpiau cymunedol
- aelodau ein cymunedau
- arbenigwyr.





Fe wnaethon ni ddefnyddio beth roedden ni wedi ei ddysgu i feddwl am 4 **amcan llesiant**. A ffordd o weithio gyda'n gilydd i wneud iddyn nhw ddigwydd. Rydyn ni'n galw'r ffordd yma o weithio yn **Rhannu ar gyfer Abertawe**.




Mae ein **hamcanion llesiant** yn bethau y byddwn ni'n eu gwneud gyda'n gilydd i helpu i wella llesiant yn Abertawe.

Fe wnaethon ni feddwl hefyd am:



- **Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru 2017**. Roedd hyn yn rhoi syniad inni o sut beth y mae bywyd yn gallu bod yn y dyfodol.



- Gwaith **rhaglen iechyd a gofal cymdeithasol Western Bay**. A sut rydyn ni'n gallu gweithio gyda'n gilydd.




- Beth mae'r gyfraith yn ddweud mae'n rhaid inni ei wneud i ofalu a chefnogi pobl.



- Hawliau'r holl bobl. A sut i'w cynnwys nhw yn ein gwaith.

# Ein hamcanion llesiant



Ein hamcanion llesiant ydy:



1. **Blynyddoedd cynnar.** Gwneud yn siŵr bod plant yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd i fod y gorau maen nhw'n gallu bod



2. **Byw'n dda a heneiddio'n dda.** Gwneud yn siwr bod Abertawe yn lle da i fyw a mynd yn hen.



3. **Gweithio gyda natur. Gwella ein iechyd a gofalu am ein hamgylchedd.**

Yr **amgylchedd** ydy lle rydyn ni'n byw. Y tir, dŵr, aer a phopeth sydd yn byw ynddo neu arno. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid a physgod.



4. **Cymunedau cryf.** Adeiladu cymunedau cryf y mae pobl yn teimlo'n falch ohonyn nhw.




Rydyn ni eisiau gweld yr amcanion llesiant yma yn gweithio erbyn 2040.



Mae **Rhannu ar gyfer Abertawe** yn meddwl sut rydyn ni gyd yn gweithio gyda'n gilydd. Ac yn rhannu ein hadnoddau a'n gwybodaeth.



**Adnoddau** ydy'r pethau defnyddiol sydd gennym ni neu bethau sydd yn perthyn inni. Er enghraifft adeiladau, cerbydau, gwybodaeth, arian a staff.





Fe fyddwn ni'n meddwl am **Rhannu ar gyfer Abertawe** pan rydyn ni'n gweithio tuag at ein hamcanion llesiant.



# 1. Blynyddoedd cynnar

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod plant yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd.

**Er mwyn i blant gael y cychwyn gorau mewn bywyd, rhaid inni wneud yn siŵr:**



- Mae gan rieni y sgiliau a'r wybodaeth gywir a'u bod nhw'n teimlo'n hyderus.



- Mae gan rieni fywyd iach a'u bod nhw'n gallu mwynhau eu hardal a natur lleol.




- Mae rhieni yn gallu cael swyddi da.



- Mae gan deuluoedd gartrefi da.



- Mae teuluoedd yn dod ymlaen yn dda gyda'i gilydd. A bod plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus gyda'u rhieni.



- Rydyn ni'n gwybod pa blant sydd ag anghenion cefnogi ychwanegol. A'u bod nhw'n cael y gefnogaeth maen nhw angen.



- Mae gan blant gyrff a meddyliau iach.



- Mae plant yn dysgu siarad a bod pobl eraill yn eu deall.



- Mae plant sydd angen cefnopgaeth i gadw'n ddiogel yn cael cefnogaeth cyn gynted â phosibl.



- Mae plant yn byw mewn lleoedd diogel heb drais.



- Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng gwahanol wasanaethau.



- Mae gwasanaethau yn cefnogi rhieni gyda phroblemau iechyd meddwl. Neu rhieni sydd yn cymryd cyffuriau neu yn yfed gormod o alcohol.



- Gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.

**Er mwyn gwneud hyn fe fyddwn ni yn:**



- Cefnogi **Cydweithredu 1000 Diwrnod Cyntaf Iechyd Cyhoeddus Cymru**. Mae'r prosiect yma yn ceisio gwneud cefnogaeth yn well i fenywod beichiog a babanod hyd at 2 oed.



- **Cefnogi mamau newydd, babanod a phlant**. Dyma lle mae staff gwasanaethau cyhoeddus yn **Gwneud i bob Cysylltiad Gyfrif**. Mae hyn yn meddwl gwneud y mwyaf o'r amser sydd ganddyn nhw gyda rhieni. A chymryd pob cyfle i roi cyngor i wella iechyd a llesiant.



- Edrych ar ffyrdd o helpu gwasanaethau blynyddoedd cynnar i weithio'n well gyda'i gilydd. A dysgu oddi wrth waith sydd wedi cael ei wneud yn dda.



- Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau yn helpu plant cyn gynted â phosibl. Mae'r gwasanaethau yma yn gallu stopio problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth.



Y **Grŵp Llywio Blynyddoedd Cynnar** fydd yn edrych ar ôl y gwaith yma.



## 2. Byw'n dda a heneiddio'n dda

Rydyn ni eisiau gwneud Abertawe yn lle gwych i fyw a mynd yn hen.

**Rydyn ni eisiau i bobl:**



- Cael yr iechyd a'r llesiant gorau posibl.



- Bod mor annibynnol â phosibl.



- Cael bywyd da a hapus.



- Cael dewis a rheolaeth.



- Teimlo eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi a bod pobl yn gwrando arnyn nhw.



- Teimlo’n ddiogel yn eu cartrefi ac yn y lleoedd maen nhw’n byw ynddyn nhw.

**Er mwyn helpu pobl i fyw ac i heneiddio’n dda rhaid inni:**



- Cael gwybodaeth bwysig am iechyd a llesiant i’r bobl gywir ar yr adeg cywir.



- Gwneud yn siŵr bod pawb yn cael cyfle i gael gwasanaethau ar gyfer eu iechyd a’u llesiant.



- Gwneud yn siŵr bod y lleoedd lle mae pobl yn byw ac yn gweithio yn dda ar gyfer iechyd a llesiant.



- Cefnogi pobl i gael  gwybodaeth, cyngor a help.



- Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio gyda’i gilydd i redeg gwasanaethau.



- Cefnogi pobl i ddysgu, gweithio a byw yn well.



- Cefnogi pobl a chymunedau i fod yn fwy cysylltiedig.



- Rhoi cyngor a chefnogaeth i helpu pobl i helpu eu hunain.



- Gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu cael gofal a chefnogaeth mewn ffordd sydd yn addas iddyn nhw. Ac mae hynny yn eu helpu i gefnogi eu hunain.



- Gwneud yn siŵr ein bod yn meddwl am hawliau dynol yn ein holl waith.



- Gwneud yn siŵr bod pobl yn byw mewn cartrefi da a diogel.



- Gwneud yn siŵr bod cymunedau yn ddiogel a bod pobl yn teimlo'n ddiogel ynddyn nhw.



**Er mwyn wneud hyn fe fyddwn ni yn:**

- Edrych ar ffyrdd gwahanol o roi gofal iechyd a chymdeithasol. Yn cynnwys ffyrdd newydd o ofalu am bobl pan maen nhw'n marw.



- Gweithio gyda phartneriaid i greu cynllun gweithredu ar gyfer **dementia**.

> **Dementia** iydy salwch sydd yn effeithio ar yr ymennydd. Mae'n effeithio ar gof pobl, y ffordd maen nhw'n meddwl a beth maen nhw'n wneud.



- Cefnogi pobl i gadw'n ddiogel ac iach yn eu cartrefi drwy ddefnyddio **Gwneud i bob Cysylltiad Gyfrif**. Rhoi hyfforddiant i staff ar **Wneud i bob Cysylltiad Gyfrif** a gwneud yn siŵr bod hynny'n dod yn ffordd normal o weithio.



- Edrych ar ffyrdd i helpu pobl sydd yn unig neu sydd yn ei chael hi'n anodd i gyfarfod pobl. Fe fyddwn ni'n ysgrifennu cynllun gyda'n partneriaid i ddweud sut fyddwn ni'n gwneud hyn.



- Edrych ar sut mae tai a thechnoleg yn gallu helpu i gefnogi pobl gydag anghenion gofal i aros yn eu cartrefi eu hunain.



- Gofyn i bobl ifanc a hen beth maen nhw'n feddwl ydy byw yn dda a heneddio yn dda. Defnyddio beth maen nhw'n ddweud wrthyn ni i wneud newidiadau i wasanaethau.



Y **Grŵp Llywio Heneiddio'n Dda** fydd yn edrych ar ôl y gwaith yma. Fe fyddan nhw'n gweithio gyda **Western Bay** pan fydd angen.

Yn y dyfodol fe fydd partneriaeth fwy yn rheoli'r gwaith yma. Fe fydd yn cynnwys:



- pobl o'r gymuned



- grwpiau gwirfoddol



- busnesau



- gwasanaethau cyhoeddus.



# 3. Gweithio gyda natur

## Gwella ein iechyd a gofalu am ein hamgylchedd.



Mae ein hamgylchedd yn bwysig iawn ar gyfer llesiant. Rydyn ni eisiau gofalu am ein hamgylchedd a gweithio gyda natur i helpu pawb i gael gwell llesiant.

**Mae hyn yn meddwl gwneud pethau fel:**




- Gwneud y mwyaf o'r lleoedd gwyrdd yn y ddinas.



- Edrych ar pa mor dda ydy ein aer a'n dŵr.



- Defnyddio gwahanol fathau o ynni sydd ddim yn gwneud drwg i'r amgylchedd.



- Newid y ffordd rydyn ni'n gwneud rhai pethau fel bod llai o **garbon deuocsid** yn mynd i'r aer.

**Carbon deuocsid** ydy nwy sydd yn gallu gwneud drwg i'r amgylchedd.



- Edrych ar ôl ein planhigion, coed a bywyd gwyllt.



- Dysgu mwy am natur a'n hamgylchedd.

**Er mwyn gwneud ein iechyd yn well ac edrych ar ôl ein hamgylchedd rhaid inni:**



- Gwneud ein aer yn fwy glân.



- Gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu mynd i leoedd gwyrdd fel parciau a choedwigoedd.




- Edrych ar ôl y dŵr yn ein hardal. Ceisio stopio llifogydd.




- Gwneud y mwyaf o'n lleoedd gwyrdd.



- Gwneud yn siŵr bod lleoedd lle mae planhigion ac anifeiliaid yn byw wedi eu cysylltu yn well.



- Edrych ar ôl lleoedd pwysig, planhigion ac anifeiliaid.



- Edrych ar ôl gwenyn ac anifeiliaid eraill sydd yn helpu planhigion i dyfu.



- Gwneud yn siŵr nad ydy planhigion ac anifeiliaid o'r tu allan i'r DU yn gwneud drwg i'n hamgylchedd.



- Cael pawb i ailgylchu.



- Cael gwasanaethau cyhoeddus i feddwl am yr amgylchedd wrth gynllunio a thalu am wasanaethau.



- Darganfod ffyrdd o wneud yn siŵr bod llai o garbon deuocsid yn mynd i'r aer.



- Gwneud yn siŵr bod adeiladau yn defnyddio llai o ynni. A darganfod ffyrdd o wneud ynni sydd yn well i'r amgylchedd fel pŵer gwynt.



- Gwneud ein gwasanaethau trafnidiaeth yn fwy teg. A gwneud yn siŵr eu bod nhw'n gallu para am amser hir.



- Rhoi hyfforddiant a gwybodaeth am yr amgylchedd.



- Casglu gwybodaeth am yr amgylchedd. Ei ddeall a'i rannu.



- Defnyddio gwybodaeth am yr amgylchedd i wneud penderfyniadau gwell.



- Delio gyda throsedd sydd yn gwneud drwg i'r amgylchedd.

**Er mwyn gwneud hyn fe fyddwn ni yn:**




- Ysgrifennu cynllun i edrych ar ôl ein holl leoedd gwyrdd. Gweithio gyda chymunedau i ddarganfod ffyrdd o wneud i'r cynllun weithio.



- Dysgu mwy am sut mae'r amgylchedd yn ein helpu ni. A gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod amdano.



- Dysgu mwy am beryglon **newid hinsawdd** i Abertawe. Darganfod ffyrdd o wneud yn siŵr bod llai o garbon deuocsid yn mynd i'r aer.

**Hinsawdd** ydy tueddiadau tywydd tymor hir. Mae **newid hinsawdd** yn meddwl newidiadau i batrymau tywydd y byd fel ein aer a'n dŵr yn mynd yn gynhesach.




- Gwneud yn siŵr bod pobl yn deall sut mae drwg yn cael ei wneud i'r amgylchedd. A beth rydyn ni'n gallu ei wneud i stopio hynny.



Y **Grŵp Tasg Natur** fydd yn edrych ar ôl y gwaith yma.



Yn y dyfodol fe fydd y gwaith yma yn cael ei reoli gan **Grŵp Gweithrediadol Gweithio gyda Natur**. Fe fydd pobl o'r gymuned, cyrff a phartneriaid yn perthyn i'r grŵp yma.



# 4. Cymunedau cryf

## Adeiladu cymunedau cryf y mae pobl yn falch ohonyn nhw.



Rydyn ni eisiau i Abertawe fod yn lle y mae pawb yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd. A lle mae pawb yn falch o fyw, gweithio a chwarae yn Abertawe.

**Er mwyn helpu i adeiladu cymunedau cryf rhaid inni:**



- Helpu pobl a chyrff i ymddiried yn ei gilydd.



- Helpu pobl i ddeall eu hawliau a'u cyfrifoldebau.



- Rhoi cyngor a chefnogaeth mewn ffordd sydd ddim yn barnu pobl.



- Gwneud yn siŵr bod cartrefi pobl a'r ardaloedd lle maen nhw'n byw yn lleoedd iach.



- Helpu pobl i deimlo’n ddiogel ar y strydoedd.



- Helpu cymunedau i ddeall pobl sydd ag anghenion ychwanegol.



- Cael cyflogwyr i dalu cyflog byw. Dyma’r swm o arian y mae’r llywodraeth yn ddweud y mae pobl ei angen i allu edrych ar ôl eu hunain.




- Gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu cael swyddi da.




- Gwneud yn siŵr bod gan bobl gefnogaeth i ddysgu sgiliau a chael cymwysterau.



- Gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu cael yr holl arian mae ganddyn nhw hawl i’w gael.




- Mae nwyddau a gwasanaethau yn costio'r un fath lle bynnag rydych chi'n byw yn Abertawe.



- Ei gwneud hi'n haws i bobl gymryd rhan yn eu cymunedau. Er enghraifft gwell trafnidiaeth, mynediad i'r rhyngrwyd a help i siarad Cymraeg neu Saesneg.



- Rhoi llais i bobl a chymunedau mewn penderfyniadau sydd yn effeithio arnyn nhw.



- Annog pobl i gymryd rhan yn eu cymunedau.




- Gwneud yn siŵr bod ein ieithoedd a'n **diwylliannau** yn cael eu gwerthfawrogi a'u rhannu.

> **Diwylliant** ydy syniadau, gwerthoedd ac ymddygiad gwahanol grwpiau o bobl.

**Er mwyn wneud hyn fe fyddwn ni yn:**



- Edrych ar ffyrdd newydd o weithio i gefnogi cymunedau diogel a chryf. Gweithio gyda'n gilydd i ysgrifennu cynllun gweithredu i gefnogi teuluoedd a chymunedau cryf. Adeiladu ymddiriedaeth a gweithio gyda chymunedau.



- Gweithio gyda'n gilydd i helpu pobl i deimlo'n dda am eu cymunedau. Ei gwneud hi'n haws i bobl gymryd rhan yn eu cymunedau. Helpu pobl i fwynhau gwahanol ieithoedd a diwylliannau yn eu cymunedau.




- Gweithio gyda'n gilydd yn yr un ffordd i gael mwy o arian i mewn i Abertawe. Fe fydd hyn yn helpu busnesau i dyfu ac i bara. Fe fyddwn ni hefyd yn gweithio i wneud yn siŵr bod gan deuluoedd ddigon o arian i fyw.



Fe fyddwn yn penderfynu pwy fydd yn edrych ar ôl y gwaith yma pan fyddwn ni wedi gorffen gweithio ar y **Cynllun Llesiant Lleol Abertawe.**

# Rhannu ar gyfer Abertawe



Fe fydd ein ffordd newydd o weithio gyda'n gilydd yn gwneud yn siŵr bod ein gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.




Fe fyddwn i'n meddwl am sut y gallwn weithio yn well gyda'n gilydd i gyflawni ein hamcanion llesiant. A sut rydyn ni'n gallu gwneud y defnydd gorau o'n:




- tir



- adeiladau



- sgiliau staff



- gwybodaeth.



Fe fyddwn ni hefyd yn gwneud yn siŵr ein bod yn gweithio mewn ffordd sydd yn cysylltu gyda'i gilydd.

**Er mwyn wneud hyn fe fyddwn ni yn:**



- Cael partneriaid **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe** i ddysgu am ei gilydd. Gwneud yn siŵr bod pawb yn deall ei gilydd er mwyn inni gefnogi gwaith a nodau ein gilydd.



- Dod at ein gilydd i edrych ar ein cryfderau a'n hadnoddau. Rhannu'r rhain gyda'n gilydd i wneud y gwaith gorau. A gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau.



- Dysgu gyda'n gilydd a meddwl am ffyrdd o weithio a fydd yn cael eu defnyddio gan yr holl bartneriaid. Gweithio gyda chymunedau a rhoi llais i bobl yn ein gwaith.



- Gweithio gyda'n gilydd i roi gwasanaethau ar y cyd gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill. Ceisio cael ein gwasanaethau i weithio bob amser mewn timau.



- Egluro beth rydyn ni'n feddwl wrth wneud Abertawe yn **Ddinas Hawliau Dynol**. Cymryd y camau cyntaf i wneud i hyn ddigwydd. Meddwl am ffordd o weld sut rydyn ni'n dod ymlaen. Yn y dyfodol fe ddylai pobl ddeall a gwerthfawrogi eu bod nhw'n byw mewn **Dinas Hawliau Dynol**.

# Geiriau Anodd

## Adnoddau
Mae adnoddau yn bethau defnyddiol sydd gennym ni neu bethau rydyn ni'n berchen arnyn nhw. Er enghraifft, adeiladau, cerbydau, gwybodaeth,arian a staff.

## Amcanion llesiant
Ein hamcanion llesiant ydy'r pethau fyddwn ni'n eu gwneud gyda'n gilydd i helpu i wella llesiant yn Abertawe.

## Amgylchedd
Yr amgylchedd ydy lle rydyn ni'n byw. Y tir, dŵr, aer a phopeth sydd yn byw ynddo neu arno. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid a physgod .

## Carbon deuocsid
Nwy ydy carbon deuocsid sydd yn gallu gwneud drwg i'r amgylchedd.

## Amgylchedd
Yr amgylchedd ydy lle rydyn ni'n byw. Y tir, dŵr, aer a phopeth sydd yn byw ynddo neu arno. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid a physgod .

## Dementia
Mae dementia yn salwch sydd yn effeithio ar yr ymennydd. Mae'n effeithio ar gof pobl, y ffordd maen nhw'n meddwl a beth maen nhw'n wneud.

## Diwylliant
Diwylliant ydy syniadau, gwerthoedd ac ymddygiad gwahanol grwpiau o bobl.

## Gwasanaethau cyhoeddus

Gwasanaethau cyhoeddus ydy gwasanaethau sydd yn cael eu rhedeg neu yn cael eu talu gan y llywodraeth. Er enghraifft cynghorau lleol, GIG, yr heddlu, tân ac achub.

## Llesiant

Mae llesiant yn meddwl bod Abertawe

- yn lle iach i fyw
- yn gwneud yn dda ac mae gan bobl swyddi a sgiliau da
- yn deg
- yn ddiogel
- yn llawn o leoedd gwyrdd ac yn gofalu am ein tir, dŵr ac aer
- yn dathlu sut mae pobl yn byw
- yn cael effaith da ar y byd.

Mae hefyd yn meddwl bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus gyda'u bywyd a beth maen nhw'n wneud .

## Newid hinsawdd

Hinsawdd ydy tueddiadau tywydd tymor hir.  Mae newid hinsawdd yn meddwl newidiadau i batrymau tywydd y byd fel ein aer a'n dŵr yn mynd yn gynhesach.